# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

KICKSTART® SCHEME

CYNLLUN AR GYFER SWYDDI

# CANLLAW I GYFLOGWYR



Llywodraeth EM



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Beth yw Kickstart? | 3 |
| Pam dylwn gofrestru â Kickstart? | 4 |
| **Beth mae pobl sy'n ymwneud â Kickstart yn meddwl o'r cynllun** | |
| Cyflogwr | 6 |
| Person ifanc ar Kickstartt | 7 |
| Porth | 8 |
| A Local Authority Gateway | 9 |
| Anogwr Gwaith DWP | 10 |
| Swyddog Cyswllt DWP | 11 |
| Faint o amser mae'n cymryd i wneud cais? | 12 |
| A oes gennych gwestiynau o hyd? | 13 |
| A oes arnoch angen help i wneud cais? | 15 |

# BETH YW KICKSTART?

Bydd y Llywodraeth yn rhoi arian i chi ddarparu swydd i berson ifanc am chwe mis.



Fel cyflogwyr uniongyrchol, byddwch yn cael £1,500 am bob person ifanc rydych yn cymryd ymlaen.



Mae haid i chi ddarparu cymorth trwy gydol y swydd i alluogi'r person ifanc i fod mewn sefyllfa dda i ymgeisio am rôl amser llawn yn y dyfodol.



Sicrhewch eich bod yn cael eich cais i mewn yn fuan i roi'r cyfle gorau i chi fanteisio ar Gynllun Kickstart.



# PAM DYLWN GOFRESTRU AR GYFER KICKSTART?

Bydd gennych berson ifanc yn gweithio i chi am chwe mis, wedi ei ariannu gan y Llywodraeth.

Byddwch yn gallu rhoi cyfle fydd o bosibl yn newid bywyd i berson ifanc sydd wedi bod yn ddiwaith ers ychydig.

Bydd eich busnes yn barod i elwa, ffynnu, a thyfu gan gymryd ymlaen y bobl ifanc hyn sy'n llawn egni, syniadau newydd, a galluedd digidol.

Nid oes fawr ddim i'w cholli. Os nad yw'r swydd yn gweithio i'r naill un ohonoch, nid oes ymrwymiad y tu hwnt i'r chwe mis.

Byddwch yn teimlo fel eich bod yn chwarae eich rhan yn helpu â'r adferiad economaidd ehangach wedi'r pandemig.



KICKSTART®
SCHEME

# BETH MAE POBL SY'N YMWNEUD Â KICKSTART YN MEDDWL O'R CYNLLUN



# CYFLOGWR

**Mae J. Murphy & Sons Limited, cwmni sy'n arbenigo mewn peirianneg ac adeiladu, yn cyflogi bron i 4,000 o bobl. Maent wedi cyflogi 40 o bobl ifanc ers i'r cynllun ddechrau ac ar hyn o bryd maent yn recriwtio ar gyfer 12 arall.**

""Roedd Kickstart yn ymddangos yn ffit mor dda i ni. Rydym bob amser yn cadw llygad am bobl dalentog i ymuno â ni mewn amryw o rolau. Gwnaethom adnabod nifer o gyfleoedd swyddi lle gallem gynnig nid yn unig lleoliadau 6 mis ond hefyd swyddi parhaol ar eu diwedd.

Roedd y broses o wneud cais am Kickstart yn hawdd ac yn syml. Cawsom gefnogaeth dda gan yr anogwyr gwaith lleol. Hefyd mae ein cydlynydd cenedlaethol DWP, Denise, wedi bod yn wych, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo pan gaewyd canolfannau gwaith. Gwnaeth hi'n si r bod ein cyfleoedd yn dal i gyrraedd y gynulleidfa iawn.

Mae gan yr holl bobl ifanc ar gynllun Kickstart eu rhaglenni cymorth pwrpasol eu hunain. Mae eu hyfforddiant yn gallu amrywio o sgiliau meddal i gymwysterau mwy ffurfiol a fydd yn rhoi'r gallu iddynt weithio unrhyw le yn y diwydiant adeiladu. Maent i gyd yn cael mentor a 'buddy' yn y gwaith - sef gweithiwr profiadol.

Mae wedi bod yn wych i ni oherwydd bod tenu pobl ifanc i mewn i adeiladu yn her barhaus ac mae hyn wedi ein helpu i adnabod cronfa ffantastig o dalent sydd â'r agwedd iawn a diddordeb yn ein sector. Mae wedi bod yn galonogol i weld hyder y bobl ifanc hyn yn tyfu. Byddai llawer ohonynt wedi bod mewn perygl o fod yn ddiwaith yn y tymor hir.

Byddwn yn annog cyflogwyr eraill i fynd amdani a gwneud cais! Mae rhai ymgeiswyr gwych ar gael trwy'r cynllun sydd ddim ond angen cael cyfle. Fy awgrym gorau yw treulio amser ac ymdrech ymlaen llaw yn y broses manyleb swydd fel eich bod yn ennyn diddordeb yr ymgeiswyr iawn o'r cychwyn cyntaf."





Dawn Moore,
Cyfarwyddwr Pobl y Grŵp

# PERSON IFANC AR KICKSTART

MURPHY
WORLD-CLASS INFRASTRUCTURE

**"Cyn Kickstart roeddwn yn ddi-waith am gyfnod ar ôl colli fy swydd oherwydd covid-19. Roeddwn yn cael trafferth dod o hyd i swydd newydd a dywedodd fy anogwyr gwaith wrthyf am y cynllun. Yn fuan iawn ar ôl i mi wneud cais cefais gyfweliad â Murphy. Roeddwn yn falch iawn gan ei fod yn ddiwydiant rydw i wedi bod eisiau gweithio ynddo am gyfnod. Rhoddodd fy anogwr gwaith ychydig o awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau i mi.**



"Yn ystod y tri mis rydw i wedi bod yn Murphy rwyf wedi dysgu llawer o sgiliau fel sut i ddefnyddio grinder, darllen lluniadau weldiwr a gwybodaeth iechyd a diogelwch. Rwy'n gwybod bod llawer mwy i'w ddysgu o hyd.

"Wrth weithio, rwyf wedi derbyn llawer o gefnogaeth gan fy rheolwr llinell. Mae fy nghyfoedion gwaith hefyd wedi bod yn wych yn gwneud yn si r nid yn unig fy mod i'n gwybod beth rwy''n ei wneud ond hefyd pam rwy'n ei wneud. Rwyf bob amser wedi bod yn frwd i ddysgu sgiliau newydd. Heb gael dim profiad yn adeiladu, rwyf bellach yn teimlo'n llawer mwy hyderus yn beth rwy'n ei wneud ac yn meddwl fy mod yn llawer mwy cyflogadwy. Rwyf wir yn gobeithio bod rôl barhaus ar ddiwedd fy lleoliad. "






Macauley,
Kickstarter J. Murphy & Sons

# PORTH

GREAT BRITISH ENTREPRENEUR AWARDS

**Un o'r ffyrdd y gallwch wneud cais i'r cynllun yw trwy borth Kickstart. Mae hyn yn sefydliad sy'n ceisio am arian ar eich rhan ac yn eich helpu trwy'r broses. Mae Great British Entrepreneur Awards (GBEA) yn borth sy'n cynrychioli 150 o gyflogwyr. Fel cwmni mae GBEA, sydd wedi ei leoli yng Nghymru, yn darparu llwyfan ar gyfer entrepreneuriaid llwyddiannus i ddod ynghyd i rannu cymorth a chyngor.**

"Rydym yn cynrychioli cymuned o ryw 50,000 o entrepreneuriaid. Pan gyhoeddwyd cynllun Kickstart gyntaf roedd rhaid i bob cyflogwr a wnaeth gais gynnig o leiaf 30 o leoliadau.

Byddai hyn wedi digalonni ein haelodau, llawer ohonynt yn fusnesau bach, felly gwnaethom sylweddoli bod cyfle i ni gamu i mewn a helpu.

"Rydym eisoes wedi gosod 300 o bobl ifanc i mewn rolau amrywiol Kickstart mewn dros 150 o fusnesau ledled wlad. Nid oeddem yn ei chael yn anodd denu cyflogwyr i'n porth. Cawsom ein llethu â ymatebion gan fusnesau ar ein cronfa ddata rydym wedi estyn allant iddynt. Gyda'n gilydd rydym nawr yn cynnig dros 1,300 o swyddi.

"Prif fudd defnyddio'r porth i fusnesau yw gallu siarad â rhywun o berspectif cwsmer sydd â'r profiad o wneud cais, rheoli'r broses, ac yn gallu ateb unrhyw gwestiynau. Rydym wedi gallu cefnogi ein cyflogwyr â phethau fel templedi disgrifiad swydd i wella safon ceisiadau. Nad yw dros hanner y busnesau rydym un gweithio â hwy yn cael unrhyw hyfforddiant sgiliau cyflogadwyedd mewnol i staff felly rydym un cynnig ein harbenigedd iddynt.

"Fel porth rydym yn ffodus bod gennym reolwyr cyfrifon personol a all ein helpu i uwchgyfeirio unrhyw ymholiadau felly er na allwn ddatrys problemau bob amser gallwn sicrhau bod gweithwyr yn cael eu diweddaru ac yn gwybod ein bod yn gweithio'n barhaus ar eu rhan â diweddariadau rheolaidd."



Francesca James, Sefydlwr

# PORTH AWDURDOD LLEOL

SKILLSHOUSE

**Mae SkillsHouse, sy'n rhan o Gyngor Rhanbarth Fetropolitanaidd Dinas Bradford, yn Borth i 160 o fusnesau lleol. Maent wedi dod o hyd i 110 o rolau i bobl ifanc trwy'r cynllun ac mae ganddynt gannoedd yn fwy o swyddi gwag yn mynd trwy'r broses recriwtio mewn ystod o fusnesau o wneuthurwyr cysgodlenni a chaeadau i amgueddfeydd ac orielau.**

Mae Sarah Napier yn Rheolwr Prosiect yn SkillsHouse:

"Rydym wedi bod yn dyst uniongyrchol, i'r effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar opsiynau gyrfa pobl ifanc ac felly roeddem eisiau bod yn rhan o helpu i greu cyfleoedd cyffrous newydd iddynt â busnesau lleol.

"Roeddem yn ei chael yn hawdd denu busnesau lleol i'n dewis fel porth. Gwnaethom hysbysebu'n fewnol ond hefyd trwy fforymau busnes eraill fel y Siambr Fasnach. Roeddem yn teimlo y gallai rhai busnesau llai gael llywio proses a meini prawf cymhwysedd Kickstart ychydig yn frawychus.

*"Mae wedi bod yn wych gweld y swyddi Kickstart hyn yn dod yn fyw."*

"Mae wedi bod yn wych gweld y swyddi Kickstart hyn yn dod yn fyw. Mae rhai busnesau eisoes wedi dechrau gweld y bobl ifanc a oedd ar y dechrau yn ymddangos yn eithaf mewnblyg, yn dechrau blodeuo ac ychwanegu gwerth at eu busnes.

"Mae rhai cyflogwyr wedi dweud wrthym y gallai'r bobl ifanc y maent wedi eu cyflogi fod yn arweinwyr yn y dyfodol eu busnesau!

Mae busnesau sy'n gwneud cais trwy ein porth yn cael cyswllt lleol pwrpasol i helpu i ateb eu cwestiynau bob cam o'r ffordd. Rydym hefyd wedi gallu helpu cyflogwyr â'r cymorth y maent yn ei chynnig i'r bobl ifanc sy'n cymryd eu lleoliadau. Rydym wedi ffurfio partneriaethau â cholegau lleol, y Brifysgol a sefydliadau gwirfoddoli gan ein galluogi i gynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a chymorth fugeiliol."

# ANOGWR GWAITH DWP

canolfanbydgwaith

**Mae Marcia Brown yn Anogwr Gwaith DWP yn y Dwyrain Llundain. Mae'n cwrdd ac yn dod i adnabod pobl ifanc sydd ar Gredyd Cynhwysol ac yn eu hannog i wneud cais am rolau Kickstart.**

"Mae gan y bobl ifanc rydw i'n eu gweld yn y ganolfan gwaith set sgiliau anhygoel. Maent yn chwilfrydig, yn awyddus i ddysgu, a gallant ddod â syniadau ffres i mewn i fusnes.

"Rwy'n gwybod o brofiad personol ein bod wedi cael ychydig o bobl ifanc yn gweithio yma trwy'r Kickstart ac maent wedi dod ag egni gwioneddol i mewn i'r swyddfa. Rwyf wedi clywed cyflogwyr eraill yn dweud eu bod wedi adfywio'r tîm cyfan ac uwchsgilio rhai o'u staff presennol â'u sgiliau digidol.

Gall pobl ddatblygu barn a ffyrdd sefydlog o wneud busnes, gan ddod â pherson ifanc i mewn trwy Kickstart yn gallu gwneud i staff gymryd cam yn ôl a chwestiynu'r ffordd mae pethau'n cael eu gwneud.

"Yn ystod y pandemig dechreuodd mwy o gwmnïau ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'u cwsmeriaid. Mae cwmnïau wedi gorfod esblygu'n gyflym a dod yn fwy ymwybodol o'r ochr digidol. Mae pobl 16-24 oed yn gyfarwydd iawn â'r llwyfannau hyn, maent yn gwybod sut i dargedu a chyfathrebu â demograffig penodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth o beth sy'n berthnasol ac yn ddiddorol i bobl. Gallant hefyd ddysgu cwmnïau ar faterion cymdeithasol ac amgylcheddol cyfredol a ellir eu hymgorffori yn ethos y cwmni.

"Fy nghyngor i gyflogwyr yw sicrhau nad yw'r swydd ddisgrifiad a roddwch i ni yn amwys. Mae'n bwysig nad ydynt yn rhestru gormod o brofiadau disgwyliedig gan y gall hyn atal ymgeiswyr potensial rhag ymgeisio.

"Os yw cyflogwyr eisiau cael demograffig eang yn eu gweithlu a chwistrelliad o syniadau newydd a ffres dylent gymryd rhan yn Kickstart. Efallai y byddant yn synnu - mae ond angen iddynt roi cyfle iddynt."



Marcia Brown,
Anogwr Gwaith DWP

# SWYDDOG CYSWLLT DWP

canolfanbydgwaith

**Mae Charlie Dinsdale yn Rheolwr Cyfrif Ardal Kickstart yn Lowestoft ac mae'n gweithio'n agos â chyflogwyr yn eu cefnogi â Kickstart.**


"Roeddwn yn fam sengl ar Gredyd Cynhwysol am gyfnod felly rwy'n gwybod sut deimlad yw bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith drwy'r Ganolfan Gwaith. Rwy'n credu mai dyma sy'n fy helpu i wneud fy swydd.

"Mae busnesau o bob maint wedi mynd trwy gyfnod anodd yn ystod y pandemig fel y mae llawer o'r bobl ifanc rwy'n cwrdd â hwy yn y Ganolfan Gwaith. Mae Kickstart yn gynllun gwych oherwydd gall helpu'r ddwy ochr. Dyma'r ffordd berffaith i fusnesau gefnogi pobl ifanc a'r Llywodraeth i gefnogi busnesau. Rwyf wedi gweld Kickstart yn rhoi'r teimlad o gyflawni yn ôl i bobl ifanc efallai nad ydynt wedi ei gael dros y flynyddoedd diwethaf.

"Weithiau gellir teimlo fod y broses ymgeisio yn cymryd llawer o amser, ond rydym yma i helpu a chefnogi cyflogwyr. Mae cysylltiadau lleol, fel fi, sy'n gallu arwain cyflogwyr trwy'r broses.

"Yn fy mhrofiad gall cyflogwyr gymryd cymaint o ran ag y maent eisiau gwneud. Gallant wirio pob ymgeisydd o'r dechrau i'r diwedd neu gallwn ymyrryd a'u cefnogi yn hyn o beth. Nid yw'r cymorth yn dod i ben pan fydd y lleoliad yn cychwyn. Rwy'n dod i gysylltiad wythnosol â rhai cyflogwyr; maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am sut mae eu person ifanc yn dod ymlaen, os oes ganddynt unrhyw bryderon neu os ydynt yn chwilio am gymorth pellach i'w hymgeisydd. "

"Rwyf wedi gweithio i DWP ers 5 mlynedd bellach ac o holl gynlluniau'r Llywodraeth i helpu pobl i weithio, mae Kickstart wir yn curo unrhyw beth rwyf wedi ei weld o'r blaen. Mae'n ffordd i bobl ifanc ddysgu sgiliau, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac ennill arian ar yr un pryd.



# FAINT O AMSER MAE'N CYMRYD I WNEUD CAIS?

**1**

**Rydych Yn penderfynu gwneud cais Kickstart.** Gallwch wneud cais yn uniongyrchol trwy gov.uk/Kickstart neu wneud cais trwy borth Kickstart neu gateway plus. Mae help i ddod o hyd i borth addas ar gyfer eich busnes.

**2**

**Asesir eich cais gan DWP** a'u nod yw cysylltu â chi o fewn mis.

**3**

**Mae ddau ganlyniad posibl i'ch cais:**

**a) Os yw'ch cais yn llwyddiannus,** anfonir dogfennau atoch chi (neu'ch porth) i'w llenwi a'u dychwelyd cyn gynted â phosibl. Dylai'r rhain fod eich cyrraedd mewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i chi gael eich llythyr derbyn.

**b) Os bydd eich cais yn aflwyddiannusl,** byddwch chi (neu'ch porth) yn cael adborth cyn pen 15 diwrnod gwaith yn dweud wrthych pam na chafodd ei dderbyn, a gallwch benderfynu a fyddwch yn ailymgeisio.

**4**

**Ar ôl derbyn yr holl waith papur swyddi gwag cywir, caiff eich swydd wag ei huwchlwytho i'n system gwasanaeth swyddi gwag o fewn 10 diwrnod gwaith.** Bydd anogwyr gwaith yn y ganolfan gwaith yn asesu pa bobl ifanc gymwys sydd fwyaf addas i ymgeisio am y swydd(i). Gall eich cynrychiolydd Kickstart lleol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

**5**

**Yna byddwch yn gallu cyflawni eich arferion recriwtio arferol.** Yna gallwch ddewis a phenodi ymgeisydd (ymgeiswyr) llwyddiannus.

**6**

**Ar ôl i'r person ifanc ddechrau gweithio â chi,** a'ch bod wedi dweud wrth DWP eu dyddiad cychwyn, byddwch yn derbyn eich taliad cyntaf. Gall hyn gymryd hyd at 11 diwrnod gwaith.

**7**

**Bydd y taliad cyflog cyntaf yn cael ei anfon atoch 6 wythnos ar ôl i'r person ifanc ddechrau.** Byddwch yn derbyn taliadau bob 30 diwrnod ar ôl hynny.

# A OES GENNYCH GWESTIYNAU O HYD?

**Efallai nad ydym wedi ymdrin â phopeth, felly dyma rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin mae gyflogwyr yn eu gofyn i gynrychiolwyr Kickstart lleol DWP.**

**A oes rhaid i mi greu rôl newydd ar gyfer cynllun Kickstart neu a all fod yn rôl roeddwn eisoes yn ystyried ei hysbysebu?**
Pwrpas Cynllun Kickstart yw cynhyrchu swyddi newydd ac ychwanegol, a grëwyd yn benodol ar gyfer y cynllun. Bydd hyn y tu hwnt i beth roeddech yn rhagweld ar gyfer eich sefydliad a dylai fod yn rôl a fydd yn rhoi profiad gwaith da i'r person ifanc.

**A oes meini prawf ynghylch pa fath o swydd mae rhaid i rôl Kickstart fod?**
Gan fod y cynllun yn agored i gyflogwyr o bob sector, mae DWP yn deall bod hyn yn golygu y bydd pob swydd yn wahanol. Fodd bynnag, prif bwrpas y cynllun yw y bydd y person ifanc yn dod yn fwy cyflogadwy erbyn diwedd ei swydd Kickstart. Mae DWP yn darparu'r cyllid grant i gyflogwyr a gyfer pob person ifanc er mwyn darparu'r gefnogaeth gyflogadwyedd hon.

**Faint o ddweud sydd gennyf yn y broses recriwtio? A allaf ddewis fy ymgeisydd fy hun os oes gennyf rywun mewn golwg?**
Ar ôl i DWP gyfeirio pobl ifanc gymwys ac addas i'ch swyddi, gallwch gyflawni eich arferion recriwtio arferol ar gyfer pob un o'r bobl ifanc hynny sydd wedi gwneud cais. Mae hyn yn rhoi'r gallu i chi ddewis ymgeisydd o'r ceisiadau hyn fel y byddech fel arfer yn ei wneud.

**How long will it take from when I apply to Kickstart to actually getting someone in the role?**
DWP aim to make a decision on an application within one month. If successful, DWP will send you your grant agreement, bank details template and job template to complete and return back. In your job template you'll include the date you want the young person to start. Once DWP know this, they'll be able to load your job on to their system at the right time to begin making referrals.

**Sut gallaf fel cyflogwr gefnogi pobl ifanc anabl orau ar leoliad Kickstart?**
Mae cynllun Hyderus o ran Anabledd yn cefnogi cyflogwyr â'r offer i wneud y gorau o'r talentau y gall pobl anabl eu cynnig i'r gweithle. I ddarganfod mwy am gynllun Hyderus o ran Anabledd a sut y gall gefnogi'ch sefydliad, cofrestrwch i edrych ar ein canllaw ar-lein. Members can access free resources, including: guidance, specialist webinars, and events. In addition, young disabled people who are on Kickstart can apply for Mynediad at Waith ar gyfer addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnynt oherwydd eu hanabledd, sydd y tu hwnt i addasiadau safonol y mae'n ofynnol i gyflogwr eu darparu.

Hefyd mae'r Fframwaith Adrodd Gwirfoddol ar gael i helpu'ch sefydliad i ddeall cyfansoddiad eich gweithlu yn well ac annog sgyrsiau agored am anabledd ac iechyd meddwl.

# A OES GENNYCH GWESTIYNAU O HYD?

**Pryd caf fy nhaliad cyntaf? A gaf fy nhalu ymlaen llaw neu mewn ôl-ddyledion?**
Ar ôl i chi ddethol yr ymgeisydd o'ch dewis, mae angen i chi ddweud wrth DWP y dyddiad y dechreuodd y person ifanc yn eich sefydliad. Yn hanfodol, mae rhaid gwneud hyn ar ôl iddynt ddechrau yn y swydd fel y gall DWP wirio eu bod wedi cychwyn. Unwaith y bydd hyn wedi'i gadarnhau, bydd DWP yn gwneud y taliad cyntaf am gostau sefydlu. Gall hyn gymryd hyd at 11 diwrnod gwaith i'ch cyrraedd. Ar ôl hyn, telir y taliad cyflog cyntaf 6 wythnos ar ôl dyddiad cychwyn y person ifanc. Gall hyn gymryd hyd at 11 diwrnod gwaith i'ch cyrraedd. Telir pob taliad cyflog arall 30 diwrnod ar ôl y taliad cyflog blaenorol. Mae DWP wedi cynnwys dadansoddiad llawn o'r amserlen ariannu yma.

**Sut mae cyfrifo am sut rwy'n gwario'r £1500? A oes angen cyfrifydd arnaf i ateb am bob ceiniog?**
Mae Cynllun Kickstart yn cael ei ariannu gan grant sy'n golygu bod gwiriadau ychwanegol yn cael eu gwneud ar i bwy mae'r arian yn cael eu talu a sut mae'r arian yn cael ei wario wedyn. Mae DWP yn gofyn i gyflogwyr a phyrth Kickstart gadw golwg ar ba arian sy'n cael ei wario. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael ar gov.uk.

**Pa lefel o gefnogaeth sydd angen i mi ei darparu i'r person ifanc wrth weithio i mi?**
Fel cyflogwr, mae rhaid i chi gefnogi'r person ifanc i ddatblygu ei sgiliau a'i brofiad yn y gweithle i gynyddu ei ragolygon o ddod o hyd i waith yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys helpu gyda pharatoi CV a chyfweld, darparu profiadau gwaith i ddatblygu sgiliau allweddol fel gwaith tîm, trefnu a chyfathrebu, a chefnogaeth i chwilio am waith tymor hir. Dylai'r £1500 a ddarparwn i chi gael ei ddefnyddio at y diben hwn, yn ogystal ag unrhyw gostau sefydlu.

**Beth yw Gateway Plus a sut mae'n gweithio?**
Mae Gateway Plus yn fath penodol o borth Kickstart sy'n cyflogi'r bobl ifanc sy'n ymgymryd â rolau Kickstart mewn sefydliadau sydd wedi gwneud cais trwy'r Porth hwnnw. Mae Gateway Plus hefyd yn darparu'r gefnogaeth cyflogadwyedd.

Mae Gateway Plus yn derbyn y cyllid grant mewn ffordd debyg i byrth eraill, ac yn talu cyflogau'r bobl ifanc. Gall Gateway Plus helpu sefydliadau llai, fel unig fasnachwyr, a phartneriaethau i wneud cais i Gynllun Kickstart. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar gov.uk.

**A gaf derfynu'r contract os nad yw'n gweithio allan?**
Mae swydd Kickstart yn swydd go iawn ac mae DWP yn deall na fydd pob swydd yn gweithio allan. Bydd Cyflogwyr yn cyflawni eu harferion AD arferol wrth ystyried dod â swydd Kickstart i ben yn gynnar.

**Beth fydd yn digwydd os na allaf roi swydd i'r person ifanc ar ôl y chwe mis? Beth sy'n digwydd i'r person ifanc?**
Nid yw bob amser yn bosibl i gyflogwyr allu cyflogi person ifanc yn llawn amser, yn barhaol ar ôl eu swydd Kickstart. Fodd bynnag, trwy gydol eu swydd Kickstart, bydd y person ifanc yn datblygu'r sgiliau a'r hyder i fod mewn sefyllfa gryfach i chwilio am gyflogaeth bellach.

# A OES ARNOCH ANGEN HELP I WNEUD CAIS?

**Gall wneud y cais deimlo'n frawychus, felly er mwyn eich helpu rydym wedi llunio rhai awgrymiadau ar sut i wneud cais.**

Mae hefyd rai fideos y gallwch eu gwylio rydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi:

- Cynllun Kickstart
- Cynllun Kickstart - Help i Gyflogwyr

Os oes gennych rai cwestiynau heb eu hateb o hyd cyn cyflwyno'ch cais, peidiwch â phoeni, gallwch anfon e-bost atom i national.kickstart@dwp.gov.uk. Fel arall, mae cysylltiadau rhanbarthol ar gael ar gov.uk.

P'un a yw'n ymwneud â'r broses ymgeisio, cwestiynau am gais sy'n bodoli eisoes, neu hyd yn oed os ydych yn ansicr p'un ai i wneud cais ai peidio, cysylltwch â ni a bydd rhywun yn dod yn ôl atoch chi. Pe gallech roi eich rhif ffôn yn yr e-bost, gallwn hefyd gael rhywun i roi galwad i chi.

